PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Polisi Trais Rhywiol
## Gwybodaeth i Fyfyrwyr



GWASANAETHAU MYFYRWYR

## Beth yw Trais Rhywiol?

Mae Trais Rhywiol yn derm cyffredinol sy'n cyfeirio at wahanol droseddau rhywiol, yn cynnwys ymosodiad rhywiol, aflonyddu rhywiol, stelcio, treisio a thrais yn y cartref.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hyrwyddo trefn weithredu lle na chaiff trais rhywiol ei oddef o gwbl, a darparu amgylchedd diogel a chefnogol lle mae pob myfyriwr yn rhydd i ddysgu a gweithio heb ofn niwed. Bydd y Brifysgol yn ymateb yn briodol ac effeithiol i bob digwyddiad y rhoddir gwybod amdanynt.

## Â phwy ellwch chi siarad am Drais Rhywiol?

Os ydych yn profi trais rhywiol, gellwch ddweud wrth aelod o staff y Brifysgol yr ydych yn teimlo'n gyfforddus yn siarad ag ef neu hi. Gallai hyn fod yn diwtor personol, yn warden neuadd neu'n aelod o staff Gwasanaethau Myfyrwyr. Efallai yr hoffech siarad ag aelod staff wedi'i hyfforddi'n arbennig i ymateb i honiadau o drais rhywiol. Os felly, cysylltwch â'r Tîm Cefnogi Myfyrwyr neu gofynnwch i aelod staff drefnu cyfarfod i chi.

Ffôn: 01248 382024
E-bost: gwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk

## Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn dweud wrth rywun?

Bydd y sawl y byddwch yn sôn am y peth wrtho/wrthi yn gwneud yn siŵr eich bod yn ddiogel a bod eich holl anghenion ar y pryd yn cael sylw. Bydd yn dweud wrthych am wasanaethau lleol a chenedlaethol a all roi cefnogaeth i chi. Gall ein staff hyfforddedig ddweud wrthych wedyn am y gwahanol ffyrdd y gellwch symud ymlaen. Efallai y dymunwch roi gwybod yn ffurfiol i'r heddlu ac/neu'r Brifysgol am y digwyddiad. Efallai y byddwch eisiau i gamau gweithredu gael eu cymryd, neu efallai y dymunwch roi gwybod yn ddi-enw am y digwyddiad. Nid oes unrhyw ffordd iawn neu anghywir i roi gwybod am drais rhywiol a chi bob amser sydd i benderfynu beth fydd yn digwydd nesaf.

## Amethyst - Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

Mae Amethyst, y Ganolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol leol yn sefydliad sy'n cefnogi rhai sydd wedi dioddef unrhyw fath o drais rhywiol. Os byddwch wedi dioddef trais rhywiol yn ystod y 7 niwrnod diwethaf, gall Amethyst os dymunwch wneud archwiliadau fforensig i gasglu a chadw tystiolaeth ffisegol pe baech eisiau rhoi gwybod am y digwyddiad i'r heddlu naill ai ar y pryd, neu'n ddiweddarach.
Ffôn: 08081563658
E-bost: bcu.amethyst@wales.nhs.uk

**Os oes gennych bryderon brys ynglŷn â'ch diogelwch personol, gallwch gysylltu â:**
- Swyddfa Ddiogelwch ar 01248 382795
- Yr Heddlu'n uniongyrchol ar 999

## Rhoi gwybod i'r Heddlu

Gellwch roi gwybod am drais rhywiol i'r heddlu drwy ffonio 999 mewn argyfwng neu 101 neu 0300 330 0101 pan nad yw'n argyfwng. Gellwch wneud hynny eich hun neu gyda chefnogaeth un o'n haelodau staff hyfforddedig, neu drwy Amethyst, y Ganolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol leol.

Yn ogystal â rhoi gwybod i'r heddlu, gellwch roi gwybod i'r Brifysgol hefyd am drais rhywiol, ac er na allwn ymchwilio i'r mater nes bo'r broses droseddol wedi'i chwblhau (oherwydd rhaid i hynny gael blaenoriaeth) fe allwn gymryd camau i sicrhau eich diogelwch tra bo ymchwiliad yn cael ei wneud.



## Rhoi gwybod i'r Brifysgol

Yn ogystal â rhoi gwybod i'r heddlu am drais rhywiol (neu'n hytrach na hynny), gellwch roi gwybod i'r Brifysgol a gall y Tîm Cefnogi Myfyrwyr eich helpu i wneud hyn. Gellwch ofyn i'r brifysgol ystyried cymryd camau dan ei Threfn Ddisgyblu. Gellwch roi gwybod am drais rhywiol hefyd yn unig fel bod y brifysgol yn gwybod beth sydd wedi digwydd ac y gall gadw cofnod i ddibenion monitro. Gellwch rannu cymaint neu cyn lleied o fanylion ag rydych ei eisiau a gellwch roi gwybod am drais rhywiol yn ddi-enw hefyd os yw'n well gennych.

## Beth fydd y brifysgol yn ei wneud?

Bydd y Brifysgol yn ystyried y mater dan ei Threfn Ddisgyblu ac, er na allwn benderfynu p'un a gyflawnwyd trosedd ai peidio, gallwn benderfynu a yw'n rheolau wedi cael eu torri ai peidio ac, os ydynt, gallwn gymryd camau disgyblaethol fel bo'n briodol.

Unwaith y cwblheir ymchwiliad troseddol, beth bynnag fo'r canlyniad (neu hyd yn oed os nad oes ymchwiliad gan yr heddlu), gall y Brifysgol ddechrau ei hymchwiliad ei hun.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cefnogi Myfyrwyr.

Ffôn: 01248 382024
E-bost: gwasanaethaumyfyrwyr@bangor.ac.uk

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Ewch i'n gwefan Cymuned Gynhwysol i gael mwy o wybodaeth am Drais, Trais Aflonyddu a Throseddau Casineb

**www.bangor.ac.uk/inclusive-community/harassment**